# tafod elái

EBRILL 2020

Rhif 346


## Gofid y Coronafeirws

Rhywbeth pell iawn i ffwrdd oedd y coronafeirws pan aeth rhifyn mis Chwefror o Tafod Elái i'r wasg, ac mae'r newid wedi bod yn syfrdanol.

Llwyddwyd i gwblhau y rhan fwyaf o ddathliadau Gŵyl Dewi ac roedd pawb yn edrych ymlaen at y gêm rygbi rhyngwladol yn erbyn yr Alban. Ond doedd dim mwy i fod ac erbyn hyn mae'r holl ardal wedi tawelu a phawb yn ofalus iawn ac yn cadw draw o unrhyw gymdeithas.

Efallai fod peth da yn dod o'r helbul wrth i nifer o bobl newydd ddod yn gyfarwydd â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar y wê i gadw mewn cysylltiad ac i greu rhywfaint o adloniant. Mae'r grŵp Facebook Côr-ona wedi bod yn donic o awyr iach ac mae llu o weithgareddau i'r plant wedi ymddangos.

Yn amlwg mae'n dyled yn fawr i bawb sy'n cadw ein gwasnaethau angenrhediol i fynd ac yn arbennig y meddygon, nysrus a gofalwyr y Gwasanaeth Iechyd sy'n gwynebu heriau enfawr yn ddyddiol.

## Angen Cadw Gwasanaethau Ysbyty Llantrisant

Mae'r ymgyrch i gadw Adran Brys a Damweiniau Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i atal yr holl waith ar ystyried israddio darpariaeth Brys a Damweiniau yr ysbyty yn ystod pandemic Covid-19. Mae pryder fod y Bwrdd yn parhau gyda'u cynlluniau yn y dirgel heb roi cyfle i'r cyhoedd ddatgan barn.

Dywedodd Len Arthur, Cadeirydd yr Ymgyrch, "Mae angen ystyried holl wersi'r cyfnod presennol a deall gwerth adrannau brys lleol. Mae nifer o achosion o bobl leol angen ysbyty ar frys yn ystod y pandemic. Rydym angen yr holl capasiti gallwn gael, dim llai, ac ni fydd pobl yn hapus o ddeall fod cynlluniau i leihau'r gwasanaethau meddygol yn mynd ymlaen. Rydym yn dra diolchgar i'r gweithwyr yn y GIG am y gwaith enfawr a wneir bob dydd."

## Tafod Elái ar y Wê

**Os ydych wedi derbyn y rhifyn yma drwy ebost yna rhannwch gyda'ch ffrindiau. Danfonwch ymlaen i unrhyw un sy'n gallu, neu dysgu, siarad Cymraeg. Danfonwch ymlaen i holl aelodau eich cymdeithasau. Danfonwch i unrhyw le yn y byd!**

Er fod bwriad i argraffu y rhifyn hwn o Tafod Elái ni fydd yn cael ei ddosbarthu ar frys mawr oherwydd y cyfyngiadau. Os wyddoch am rhywun hoffai gael copi papur gallwn drefnu iddo gyrraedd.

## Codi £40000 i Gronfa'r Llifogydd




Catsgam yn y gig ym Mhorth

Roedd Y Ffatri Pop yn y Porth yn llawn o rock a phop am dair noson i gasglu arian tuag at ddioddefwyr llifogydd mis Chwefror. Yn fuan ar ôl i bawb sylweddoli difrifoldeb effaith y llifogydd daeth criw o'r Fenter Iaith gyda chefnogaeth Emyr Afan ynghyd i drefnu cyfres o nosweithiau i godi arian.



Emyr Afan ac Einir Siôn yn dathlu llwyddiant y penwythnos

Nos Wener oedd y noson Gymraeg a daeth Al Lewis, Huw Chiswell, Elin Fflur, Mei Gwynedd, Catsgam ac eraill i roi noson arbennig o gerddoriaeth i gefnogi'r gwaith o adfer Clwb y Bont.

Roedd Einir Siôn, o'r Fenter Iaith, yn falch iawn o lwyddiant y penwythnos a'r £40,000 a godwyd i bobl a busnesau'r Cymoedd wedi difrod y llifogydd. Roedd yn werthfawrogol iawn o'r llu o wirfoddolwyr oedd wedi rhoi eu hamser a'u harbenigedd am ddim.

Gallwch gyfrannu i'r achos drwy wefan valleyaid.co.uk.



Amy Wadge, un o sêr nos Sadwrn

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Dymuniadau Da**
Da deall fod Pat Edmunds, Penywaun wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis a'i bod yn gwella pob dydd. Pob dymuniad da iti, Pat.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu Gwilym Treharne ar golli ei fam yn ddiweddar. Roedd Mrs Jan Treharne wedi cyrraedd yr oedran teg o 101 ac wedi byw bywyd llawn tan yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Llanelli dydd Sadwrn, Mawrth 14eg.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Gareth Evans a'r teulu ym Mharc Nant Celyn ac yntau wedi colli ei dad, Oscar Evans. Cynhaliwyd y gwasanaeth Angladdol yn Y Tabernacl dydd Llun, Mawrth 16eg o dan arweiniad Y Parchedig D Eirian Rees.

**"Y Ddadl Fawr"**
Braf oedd clywed dau o bobl ifanc y pentref yn dadlau ar y radio brynhawn Sul, Mawrth 15ed, ar y gyfres "Y Ddadl Fawr". Roedd Huw Griffiths a Gruffydd Roberts yn cynrychioli Ysgol Garth Olwg. Roedd y tîm, gydag Anwen yn gadeirydd yn cystadlu yn erbyn tîm o Aelwyd yr Ynys, Môn. Enillodd y ddau dîm sylwadau ardderchog gan y tri beirniad a chawsant eu canmol am y safon anhygoel, eu hymchwil manwl a'u dadlau cryf. Yn anffodus i Huw, Gruffydd ac Anwen Aelwyd yr Ynys a orfu o drwch blewyn.

**Gwobr i Gruffydd**
Mae'n amlwg fod Gruffudd Roberts yn berson prysur iawn. Nid yn unig yn dadlau yn "Y ddadl fawr", yn aelod brwd



Gruffudd ar raglen Heno



Efan

o Aelwyd Bro Taf, yn astudio ar gyfer ei Lefel A ond mae'n cyflwyno rhaglen Sesiwn Sul bob nos Sul ar Orsaf radio GTFM - gorsaf leol ym Mhontypridd. Mae Gruffydd a'i gyd-gyflwynydd, Efan Fairclough, yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy chwarae recordiau Cymraeg, cyflwyno cwis a holi ambell westai yn wythnosol. Llongyfarchiadau iddynt am ennill Gwobr Hybu Diwylliant Ieuenctid Rhondda Cynon Taf.

**Swydd Newydd**
Dymunwn yn dda i Catrin Rhys, Penywaun yn ei swydd newydd yn Ysgol Gymraeg Iolo Morgannwg yn Y Bontfaen.

**Sul y Mamau**
Hyfryd oedd gweld teulu hapus o Barc Nant Celyn ar y rhaglen "Dechrau Canu Dechrau Canmol", nos Sul yr ail ar hugain o Fawrth. Roedd y rhaglen yn dathlu Sul y Mamau ac fe gawsom brofi hapusrwydd Rhys a Sioned Hughes ar ôl iddynt fabwysiadau Hari bach. Soniodd Sioned sut newidiodd Hari fywyd y teulu, a'r foment arbennig yn ei bywyd pan ynganodd Hari'r gair "Mam" am y tro cyntaf. Eitem hyfryd o hapus ynghanol gofid a phryder y feirws dinistriol yma.



**Y TABERNACL**
Yn ystod y cyfnod yma o ansicrwydd does fawr i adrodd o'r Tabernacl y mis hwn. Mae pob oedfa, cyfarfod a gweithgarwch wedi tewi am gyfnod amhenodol. Mae drysau'r Capel a'r Ganolfan wedi eu cau a'r lle'n dawel fel y bedd heb seiniau hyfryd y Corau, heb frwdfrydedd cyfarfodydd Merched y Tabernacl a Merched y Wawr. Tawel yw pob bore Mercher heb y sgyrsiau a'r clecs yn y Bore Coffi. Mae'n gyfnod pryderus i bawb. Y rhai sydd yn gorfod brwydro ymlaen â'u gwaith, ac i'r henoed sydd wedi eu hynysu yn eu cartrefi am fisoedd.

Yng ngeiriau cysurlon Rhiannon Humphreys a oedd yn llywyddu'r Oedfa ola' a gawsom yn Y Tabernacl, fore Sul, Mawrth 15fed "mae'n rhaid i ni gredu y daw eto haul ar fryn".

Diolch o galon am y tîm o wirfoddolwyr sydd wedi cynnig eu gwasanaeth i siopa ac edrych ar ôl y rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi.

## Banc Cwtch i Fabanod

Rhoddwyd sylw i elusen yn Ffynnon Taf ar Heno ym mis Mawrth. Cychwynnwyd Banc Cwtch i Fabanod yn 2016 i ddosbarthu dillad a defnyddiau babanod i deuluoedd bregus yn y gymuned. Sylfaenydd yr elusen yw Hilary Johnston a fu'n fam maeth am flynyddoedd ond yn ymddeol. Roedd hi am gyflwyno'r dillad a'r cyfarpar roedd hi wedi casglu dros 20 mlynedd i elusen yng Nghymru ond gwelodd nad oedd elusen yn cymryd dillad i'w dosbarthu. Felly sefydlodd Banc Dillad Babanod Cwtch.



Mae Cwtch yn darparu dillad, deunydd ymolchi a chyfarpar ar gyfer babanod o'u geni hyd yn 2 oed drwy dderbyn ceisiadau oddi wrth gwasanaethau gofal ac asiantaethau priodol ac mae'r holl roddionn yn mynd yn syth i'r bobl sydd ei angen.



Eiddwen Thomas

Ar Heno clywyd profiad dwy sy'n cynorthwyo yn Cwtch a'r pleser a'r fraint o gael cyfle i gefnogi pobl llai ffodus. Mae Dr Eiddwen Thomas yn un o'r Ymddiriedolwyr ac mae Olwen Jones yn cynorthwyo yn y ganolfan dosbarthu ym Moy Road, Ffynnon Taf.



Olwen Jones

Mae'r elusen wedi cynorthwyo dros 2000 o deuluoedd. Oherwydd yr amgylchiadau presennol nid yw'r elusen yn derbyn deunydd ar hyn o bryd ond gellir eu cefnogi drwy Facebook @cwtchbabybank.

# Gwybodaeth o Sbaen am Covid-19

Mae'r meddygon yn Tseina nawr yn deall sut mae COVID-19 yn gweithredu drwy archwiliadau ar bobl sydd wedi dioddef o'r feirws.

Prif nodwedd y feirws yw cau'r pibau anadlu gyda mucus tew sy'n caledu a rhwystro'r llwybrau awyr i'r ysgyfaint.

Mae nhw wedi darganfod fod angen agor a chlirio y pibau anadlu er mwyn rhoi meddyginiaeth i gychwyn y proses o wella, ond mae hyn yn cymryd nifer o ddyddiau.

Yr hyn mae nhw'n argymell i ddiogelu eich hunan yw:

1. Yfed lot o hylif poeth – coffi, cawl, te a dŵr cynnes. Hefyd cymerwch sip o ddŵr cynnes bob 20 munud er mwyn cadw'r ceg yn wlyb a golchi unrhyw feirws o'r ceg i'r stumog ble mae'r sudd gastric yn niwtralleiddio y feirws cyn iddo gyrraedd yr ysgyfaint.
2. Garglo gyda anti-septic mewn dŵr cynnes – vinegar, lemon neu halen - bob dydd os yn bosib.
3. Mae'r feirws yn glynu i wallt a dillad, mae unrhyw detergent neu sebon yn ei ladd ond mae'n rhaid cymryd bath neu cawod pan rydych yn dod i mewn o'r stryd. Peidiwch ag eistedd i lawr unrhyw le ac ewch yn syth i'r ystafell ymolchi ac i'r gawod. Os nad ydych yn gallu golchi eich dillad yn ddyddiol rhowch nhw i sefyll yn ngolwg golau haul sydd hefyd yn cael effaith i wared y feirws.
4. Mae angen golchi pob arwynebedd metalaidd a sgleiniog yn drwyadl oherwydd gall y feirws barhau i fwy ar yr arwynebedd am hyd at 9 diwrnod. Byddwch yn wyliadwrus a gofalus cyn cyffwrdd a rheiliau a handlen drysau ac yn y blaen. Yn eich cartref gallwch sicrhau fod rhain yn lân drwy ei glanhau yn gyson.
5. Peidiwch ag ysmygu.
6. Golchwch eich dwylo bob 20 munud gydag unrhyw sebon sy'n creu ewyn (foam). Gwnewch hyn am 20 eiliad a sicrhau eich bod wedi golchi eich dwylo yn drwyadl.
7. Bwytewch ffrwythau a llysiau, ceisiwch codi eich lefel zinc yn ogystal a'ch lefel fitamin C.
8. Nid yw anifeiliad yn lledaenu'r feirws i bobl, dim ond o berson i berson.
9. Ceisiwch osgoi cael y ffliw cyffredin oherwydd byddai'n gwanhau eich sustem a ceisiwch osgoi yfed diodydd oer.
10. Os ydych yn teimlo unrhyw anhwylder yn eich gwddf neu dolur gwddf yn cychwyn yna defnyddiwch y cyfarwyddiadau uchod i'w ymladd. Mae'r feirws yn aros yn y gwddf am 3 – 4 diwrnod cyn symud i'r ysgyfaint.

Nid yw'r argymhellion hyn yn disodli unrhyw gyngor a gwybodaeth a gewch gan eich meddyg.

Dymuniadau gorau i chi gyd a cymerwch ofal.

# Adroddiad am waith BanglaCymru



Tîm Meddygol BanglaCymru

Mae BanglaCymru wedi bod yn gweithredu ers 2008 i roi triniaeth i blant a phobl ifanc sydd â chyflwr gwefus a thaflod hollt. Yn ddiweddar aeth y sylfaenydd, Wil Morus Jones, draw i weld y gwaith arbennig sy'n cael ei weithredu gan yr elusen.

Treuliais ddeunaw diwrnod yn Bangladesh yn ddiweddar a gwelais â'n llygad fy hun y gwaith da sy'n digwydd o ddydd i ddydd. Rwy'n derbyn tri adroddiad misol gan Dr Jishu, ein cydlynydd meddygol sy'n cynnwys adroddiad ariannol, diweddariad ar waith ein canolfan feddygol a hefyd hynt a helynt ein meddygfa symudol.

Yn ystod f'arhosiad teithiais gyda thîm meddygol BanglaCymru i ddinas Tangail, tua chan milltir i'r gogledd o'r brifddinas, Dhaka. Mewn ysbyty yn y ddinas hon fe drefnwyd bod cleifion yn dod i gael eu hasesu ar ein diwrnod cyntaf yno, ac fe benderfynwyd bod 38 yn fabanod a phlant bach gan fwyaf yn gymwys ac abl i wynebu'r llawdriniaeth. Treuliwyd y dyddiau nesaf yn gweithio ar ddau fwrdd llawdriniaeth o 9.00yb tan oriau mân y diwrnod canlynol. Cyflawnwyd y gwaith ond ychydig ar ôl gadael daeth neges i law fod tri chlaf arall wedi cyrraedd yn rhy hwyr i gael eu trin, ac fe drefnwyd eu bod yn teithio i Chittagong ychydig ddyddiau wedyn i gael y driniaeth fel sydd wedi digwydd i sawl un arall yn ystod ein blwyddyn ariannol.



Mr Abdul Hamid Bhulyan yn cyflwyno tystysgrif i Wil i ddiolch am ei gefnogaeth

Ar ddiwedd ein cyfnod yn Tangail cawsom ein gwahodd i gwrdd â chadeirydd gweithredol Cymdeithas Gwasanaethau Cymdeithasol dinas Tangail, Mr Abdul Hamid Bhulyan. Codwyd fy nghalon yn fawr pan soniodd am roi statws arbennig i'n prosiect i'w noddi a'i barhau fel darpariaeth sylfaenol yn y rhanbarth. Mae hyn yn newyddion arbennig o gadarnhaol nid yn unig i mi a'n cefnogwyr ond hefyd i Dr Jishu o gofio bod yr elusen yn dod i ben ymhen tua dwy flynedd.



Dr Jishu wrth ei waith

Treuliais amser hefyd yn ein canolfan gyda staff BanglaCymru sef Dr Dippa, Sulika ein hymwelydd iechyd, y gofalwr ac wrth gwrs Dr Jishu. Trefnwyd dwy feddygfa symudol yn ystod f'amser yn Chittagong; un yn y slymiau a'r llall ar ynys nepell le nad oes unrhyw ddarpariaeth feddygol.

Ers dechrau blwyddyn ariannol BanglaCymru, sef Gorffennaf 1af, 2019 mae'r elusen wedi rhoi llawdriniaeth i 50 o gleifion hollt (cleft) sy'n dod â'n cyfanswm ers sylfaenu'r elusen i 1,410. Rwyf unwaith eto'n diolch o waelod calon i chi am eich cefnogaeth.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*



Y Côr yn cloi Rifiw Clwb y Dwrlyn

**Rifiw Clwb y Dwrlyn**
Roedd Rifiw eleni yn edrych nôl dros ddeugain mlynedd o gymdeithasu Cymraeg yn yr ardal hon. Fel yn y gân agoriadol:

“Noson canmol ni ein hunain
Wrth gael hwyl yn dathlu’r deugain
Hwyl a sbri yn diasbedain
Mewn cwmni da.” (Ann Dwynwen.)

Dyna gawsom ar y noson arbennig yma gan ddechrau gyda chwis heriol Colin a Nia i brocio’r cof, ennyn dadl a chreu chwerthin. Ymlaen wedyn at ganu cerdd Ifan Roberts am anghyfleustra cau’r heol rhwng Creigiau a Phentyrch - “Ble Daw’r Nwy?”

“Anghofiodd rhywun holi
Ble daw’r nwy?Ble daw’r nwy?
Cyn codi’r holl faestrefi
Ble daw’r nwy?..........

Doedd dim amdani felly
I gael nwy,i gael nwy
Ond gyrru’r bois i dyllu
I gael nwy
Am ddeufis bron yn soled
Caethiwyd pawb at syrffed
A chau hewl Pantagored
I gael nwy,i gael nwy
Gwahanwyd y gymuned i gael nwy……..

ac ymlaen i’n goglais wrth ganu am yr anghyfleustra.

Yna cerdd gocos gan Rowland yn disgrifio hynt a helynt y Clwb ers 1979.

Un mil naw cant saith deg a naw
Blwyddyn sy’n dal i godi braw
Cofiwn am y refferendwm
Pleidlais ‘Ie’ gafodd godwm.

Magi Thatcher ddaeth yn bennaeth
Yn clodfori cyfalafiaeth
Er addewid i gael sianel
Taflodd hwnnw i’r bin sbwriel.

Ond â ninnau’n brudd ein hysbryd
Daeth goleuni. Gwyrth a gafwyd
Cyn i’r flwyddyn lwyr ddiflannu
Clwb y Dwrlyn ga’dd ei eni...........

Materion casglu sbwriel ac ailgylchu oedd yn poeni Bois y Bin sef y ddwy Gill - Rees a Griffiths - unwaith eto yn peri i bawb synnu at eu gallu i gadw’n ddifrifol tra roedd pawb arall yn eu dyblau.

O’r Met a La Scala i Glwb Rygbi Pentyrch daeth Y Tri Chantor ymffrostgar- Guto, John ac Arwel.
“Ni yw y gwych drio- pob un sydd yn feistro !”

Dwn i ddim a oedd pawb yn cytuno!

Wrth gwrs, wrth ddathlu penblwydd mae’n rhaid cael cacen. Diolch i Sara Esyllt am y cacennau bach hyfryd, gan baratoi digon i bawb gael un yr un (ac ambell un, ddwy!). I’w dosbarthu cafwyd dull hollol unigryw a gorchestol gan Guto. Llwyddodd i adeiladu trac trên trydan mawr ar draws yr ystafell a rhedeg nid un ond dau drên i gludo’r cacennau i’r man casglu. Diweddglo trawiadol i’r noson.

Diolch i Nia a Colin am eu gwaith gwych yn cydlynu’r noson mor llwyddiannus yn ôl eu harfer a diolch i’r sgriptwyr a’r perfformwyr oll. Noson i’w thrysori.

**Blodau Papur a Mei Gwynedd**
Roedd Acapela dan ei sang ar Fawrth 1af wrth i Mei Gwynedd a Blodau Papur ein diddanu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Roedd rhai o aelodau Clwb y Dwrlyn wedi mwynhau cwmni Mei Gwynedd yn ddiweddar ac fe gawsom wledd ganddo unwaith eto.

Yn ogystal, cawsom ein swyno gan Alys Williams a’i band - Osian Huw, Aled Huws, Sion Llwyd a Branwen Haf. Mae gan Alys lais arallfydol ac fe lwyddodd i’n cyffwrdd yn emosiynol.

Fel ôl nodyn mae Mei Gwynedd yn rhoi gwersi Ukulele i blant ar YouTube tra fydd yr ysgolion ynghau drwy gyfnod y Coronafirws. Syniad ardderchog.

**Cymwynas Merch Ifanc**
Oherwydd y dinistr a achoswyd gan y llifogydd, penderfynodd Efa Hobbs, sy’n byw yn Heol y Pentre, weithredu i helpu’r rhai oedd wedi diodde, drwy gynnal bore coffi yn Neuadd Pentyrch. Casglwyd dros £1,700 tuag at gronfa’r llifogydd - swm anhygoel. Llongyfarchiadau mawr i ti Efa ac efallai i nifer ohonom ei gweld yn siarad am ei menter ar y teledu. Gwych!



Guto Roberts, y Cadeirydd, wedi trefnu trên i gario cacennau dathlu 40 mlynedd Clwb y Dwrlyn



Efa gyda’i chwaer a’i Mam ar Heno nos Sadwrn o Bentyrch

## Pentyrch (Parhad)

**Rygbi**
Llongyfarchiadau i Jac Davies am gael ei ddewis i garfan dan 16 Y Gleision Cyfunol sydd yn cynnwys chwaraewyr o garfan y Gogledd a'r De. Y bwriad oedd chwarae gemau yn erbyn y Scarlets, Yr Alban a'r Gweilch, ond yn anffodus, fel y gwyddom, bu'n rhaid canslo neu ohirio pob math o chwaraeon. Dymunwn bob lwc i Jac ar y maes rygbi pan fydd bywyd yn normal unwaith eto.

**Croeso i Bentyrch**
Croeso cynnes i ddau deulu i Bentyrch.
Mae Mair a Gwynn Matthews wedi symud i Heol Penuel o Gaerdydd ac felly'n nes at eu mab a'r teulu.
I Benywaun daeth Arwyn a Kate Jones a'u plant Hedd a Fflur o'r Creigiau.
Dymunwn yn dda iddynt ac mae'n siwr y byddant yn ymgartrefu'n hapus yn ein plith.

**Gwellhad Buan**
Mae'n dda deall bod Gwilym Williams yn gwella'n dda wedi ei lawdriniaeth. Pob dymuniad da Gwilym.
Dymunwn yn dda hefyd i Judith Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty.

**Pentre Dementia - Gyfeillgar**
Mae'r Rotary lleol yn gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i geisio gwneud Pentyrch yn bentref Dementia-Gyfeillgar. Cynhaliwyd sesiynau i godi ymwybyddiaeth am y cyflwr a daeth nifer dda ynghyd i'r Clwb Rygbi ar gyfer yr "Happy Memory Café" cyntaf. Roedd yn brynhawn hwyliog - yn cymdeithasu uwch paned, chwarae gemau ac ymuno mewn sesiwn ganu. Bu'n llwyddiant amlwg a'r bwriad yw cwrdd unwaith y mis pan fydd y sefyllfa yn caniatáu.


**Cydymdeimlad**
Yng nghanol holl drybini'r firws daeth y newyddion trist am farwolaeth Howard Thomas,Pantbach. Ers y Nadolig, cafodd Howard ofal arbennig yng nghartre gofal Heol Don, Yr Eglwysnewydd, wedi iddo frwydro'n ddewr a di-gwyn yn erbyn ei afiechyd am dros ddwy flynedd. Roedd Richard, Andrew a Betsan yn falch iawn o'u Tad a oedd yn ŵr bonheddig, egwyddorol a charedig ac yn fathemategydd penigamp. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'r plant a'u teuluoedd, a'u gobaith yw cynnal cyfarfod coffa teilwng iddo pan fydd modd.

**Cynllun Tetra Cycle**
Cafodd biniau pwrpasol eu gosod y tu allan i siop y pentref i gasglu pecynnau creision, losin a nwyddau glanhau er mwyn eu hailgylchu. Mae'r cynllun wedi codi £350 a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu mainc, wedi'i gwneud o blastig wedi'i ailgylchu, i'w gosod yn y pentref.



Mererid Hopwood yn siarad yng Nghinio Gŵyl Dewi Clwb y Dwrlyn

**Ffordd yr Eglwys**
Mae'r pentrefwyr yn dal i bryderu am ansawdd Ffordd yr Eglwys wrth i'r drafnidiaeth sy'n ei defnyddio gynyddu yn sgil cau'r ffordd rhwng Pentyrch a'r Creigiau. Trefnwyd deiseb yn galw am roi wyneb newydd i'r ffordd ar frys ac ymddangosodd cartŵn pwrpasol ar y gwefannau cymdeithasol.




Arwydd arall ddaeth â gwen i'r wyneb oedd yr un yn ein hysbysu bod Heol Pantygored ynghau. Chwarae teg am geisio bod yn ddwyieithog ond does dim gwobrau am geisio dyfalu beth yw enw cartref cymdogion Wyn a Gill!




O leiaf mae'r arwydd wedi mynd erbyn hyn ar ffordd o Bentyrch i Creigiau ar agor unwaith eto.

**Cinio Gŵyl Dewi**
Cynhaliwyd cinio Gŵyl Dewi Clwb y Dwrlyn yng nghlwb golff Radur eleni a'r gwestai oedd Mererid Hopwood. Oedd, roedd y cinio yn flasus iawn a phawb yn canmol y wledd, ond y wledd go iawn oedd araith Mererid. Y geiriau a glywid wrth adael oedd "ysbrydoledig, ysgubol ac athrylithgar."
'Beth yw iaith' oedd ei thestun ac yn ei chyflwyniad dangosodd bod iaith yn llawer mwy na geirie a bod i bob un ei chân ei hun gyda'i thôn a'i rhythm unigryw. Eglurodd bod gan bob iaith ei golwg ei hun ar y byd; yn y Gymraeg ry'm yn 'clywed arogl' a gweld 'gwair yn las'. Dyma yw ei chyfoeth a'i gogoniant.
Gan danlinellu bod Cymru yn rhan o'r byd pwysleisiodd bod lle i bawb wrth ddechre dysgu Cymraeg ac nad oes croeso i ormes y plismyn iaith. Beth sydd o'i le ar ambell "for shame", "jyst" neu "passage?"
Dyna oedd perl o araith ac arwydd o hynny oedd i bawb godi ar eu traed i ddatgan eu gwerthfawrogiad. Aeth pawb sha thre wedi eu cyfareddu gan araith a brwdfrydedd heintus Mererid.

**Diolch**
Yn y cyfnod anodd yma rhaid diolch i berchnogion siopau Pentyrch am eu gwaith caled yn ceisio cyflenwi ein anghenion bob dydd. Diolch hefyd i bawb sydd wedi dodi negeseuon drwy'r drysau yn datgan eu parodrwydd i helpu mewn unrhyw ffordd y medrant.



Bois y Bin yn Rifiw Clwb y Dwrlyn

# Ysgol Tonyrefail

**Sioe 'GLO'**

Ar Chwefror 27ain cynhaliwyd perfformiad o sioe 'Glo' yn Theatre y Savoy - sef penllanw tymor a hanner o fenter creadigol rhwng cwmni drama 'Mewn Cymeriad', Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ysgol. Bu disgyblion blynyddoedd 3 - 6 a'r staff yn hynod o ffodus i gael y cyfle i weithio gyda, a dysgu oddi wrth ystod eang o bobol talentog. Cafwyd gweithdai ysgrifennu gyda Gwynfor Dafydd, awdur y ddrama Glo a chyn-ddisgybl yn yr ysgol, yn ogystal ag ysgrifennu geiriau i gân am y chwyldro diwydiannol. Cyfansoddwyd alaw fachog i'r geiriau gan Mei Gwynedd a ddaeth i'r ysgol i recordio'r gân. Daeth Tudur Phillips i ddysgu sgiliau clocsio i'r plant ac Anwen Carlisle ac Elin Llwyd i gynnal gweithdai actio.

Cyfle anhygoel arall i'r plant oedd cael treulio diwrnod yn ffilmio (golygfa i'w dangos yn y sioe) ym Mharc Treftadaeth y Rhondda gyda Glyn Roberts. Cafodd Blwyddyn 6 gyfle i ddysgu am lunio promos i hysbysebu'r sioe gyda Eleri Twynog a Glyn. Diolch i Dan o Theatr y Savoy am y gweithdy technegol ac i Hywel Robert o Into Film Cymru am ddod i hyfforddi'r staff.

Cafwyd perfformiad gwych i rieni a ffrindiau'r ysgol ac roedd yn brofiad bythgofiadwy i'r plant ac yn un hynod emosiynol i'r staff. Diolch o waelod calon i bawb wnaeth sicrhau llwyddiant y prosiect oedd yn cyfuno dysgu am dreftadaeth Cymru a hanes lleol gyda sgiliau mynegiannol. Diolch yn arbennig i'r plant am egni ac ymroddiad diflino – mae dyfodol disglair i nifer yn y celfyddydau mynegiannol rwy'n siwr!





Clocswyr Blwyddyn 4





Dysgu am ochr dechnegol y sioe



Aros i ffilmio golygfa



Anwen Carlisle yn arwain gweithdy drama



Ffilmio ym Mharc Treftadaeth y Rhondda

**Sesiwn Sgwrsio**

Diolch i Helen Prosser un o lywodraethwyr yr ysgol a'r Criw Cymraeg am drefnu Sesiwn Sgwrsio i rieni sydd eisiau ymarfer eu Cymraeg. Cafwyd prynhawn hwyliog gyda digonedd o siarad!




## Ysgol Tonyrefail (parhad)


















Lluniau o hysbyseb fideo sioe 'Glo'



Ella Balbini enillydd y gadair yn Eisteddfod yr Ysgol

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
Cynhaliwyd eisteddfod a chyngerdd ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda chystadlu brwd ymysg y disgyblion. Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu'r achlysur. Llongyfarchiadau arbennig i Ella Balbini ar ennill cadair yr eisteddfod ac i Ffion Richards am ddod yn 2il a Corey Gibbs a Gracie Matthews 3ydd. Diolch i'r holl ddisgyblion am ymdrechu mor galed yn y gwahanol gystadleuthau.

**Wythnos Wyddoniaeth**
Hyfryd oedd gweld brwdfrydedd y plant wrth gyflawni llu o weithgareddau ymarferol ar draws yr ysgol i ddathlu wythnos wyddoniaeth. Fel rhan o'r dathliadau aeth Bl 3-5 ar drip i Techniquest i weld cyflwyniad gwyddonol arbennig.










Arbrofi

**Diwrnod y Llyfr**
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol ym mhob dosbarth i ddathlu diwrnod y llyfr. Diolch fawr yn arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 6 am ddarllen yn frwdwfrydig gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

**Dydd Mawrth Ynyd**
Roedd arogl hyfryd crempog yn llenwi'r coridorau wrth i blant goginio a blasu'r ffroes. Cafodd y plant arhosodd i'r Urdd gyfle i goginio a blasu mwy ohonynt. Lwcus iawn!











Taflu Crempogau

**Eisteddfod Gylch yr Urdd**
Er na fydd cystadlu pellach eleni hoffwn ddiolch i'r plant a gystadlodd yn yr eisteddfod gylch eleni a'u llongyfarch ar eu perfformiadau. Llongyfarchiadau i Brooke Larkman 1af llefaru Bl5 a 6, Evan Fletcher unawd Bl 3 a 4, Elladie-Belle Owen 3ydd Unawd Bl 1 a 2.







# Detholiad o Englynion Bedd Glyn Tâf.

Ar lannau dwyreiniol Afon Tâf, am y dŵr â Threfforest a Phontypridd, saif un o fynwentydd pertaf, a phwysicaf Cymru, sef Mynwent Glyn Tâf.

Bydd y rhan fwyaf o Gymry Cymraeg, gobeithiaf, yn gyfarwydd ag '*A baty Westminster Cymru*', sef Capel Groeswen ar odreon Mynydd Meio, uwch tref Caerffili. Yma, adeiladwyd addoldy cyntaf y Trefnyddion yng Nghymru a fu'n ddiweddarach yn brif ganolfan i Annibynwyr yr ardal. Ym mhridd Groeswen gorwedd rhai o fawrion Bro Tâf a thu hwnt, rhwng beirdd, ffermwyr a thirfeddianwyr.

Ond heddiw, gadawom y mawrion hyn i'w gorffwys a chario ymlaen lan y mynydd, heibio i Eglwys Ilan a'i chysgadwyr hithau, ac am i lawr eto gan ddilyn bwrlwm Nant Corwg i bentre Glyn Tâf. Ymestynna'r fynwent hyd ael allt, fel petai yn ymhyfrydu yn yr olygfa eang o'r cwm a'i afon o'i blaen. Mae'n bwysig cofio i fynwentydd mawrion y 18eg ganrif gael eu hadeiladu i bobl rodio ynddynt, a dianc dros dro rhag awyr afiach y diwydiant o'u cwmpas, fel ein parciau cyhoeddus cyfoes. Fe ddaeth y diwydiant hwnnw â golud, wrth gwrs, fel y tystia y cofebau mawr, crand a welir wrth fynd trwy iatiau haearn y fynedfa; ond fe ddaeth â gofid hefyd, a geilw enwau Senghenydd a Chilfynydd oddi ar y meini ar bob tro.

Un o gysgadwyr Eglwys Ilan yw Thomas Williams, 'Brynfab', bardd y mae'i englynion yn britho mynwentydd y cymoedd, gan gynnwys Glyn Tâf. Dyma englyn o law Brynfab ar gofgolofn 'Dewi Alaw' (1832 - 1914), a oedd yn aelod o 'Clic y Bont' gyda Brynfab, Glanffrwd, Carnelian ac eraill, un o'r llu o glwbiau llenyddol, celfyddydol a gwleidyddol a adlewyrchai bwrlwm diwylliannol yr ardal:

**Dewi Alaw, hyd elor - fu wreiddiol**
**Ei frawddeg a'i gyngor;**
**Gwyliodd ef nes galwodd Iôr,**
**Uwch urddas Bardd a Cherddor.**

Englyn teimladwy iawn o waith Brynfab sydd ar fedd Mary, priod Phillip Jones, Bryn Awel, Cilfynydd, a fu farw 1918 yn 75 oed:

**Mary fwyn, ei thymor fu - yn hafol**
**Dangnefedd i'w theulu;**
**A'i llusern yn llaw Iesu,**
**Oleuai'n deg y glyn du.**

Bu farw Brynfab ei hunan ar fferm yr Hendrewen, Sant Athan ym Mro Morgannwg, 1927 yn 78 oed; fe'i claddwyd yn Eglwys Ilan gyda'r englyn hwn gan J.J. Williams uwch ei fedd:

**Oedd athro beirdd, a thra bo - odli cân**
**Deil cenedl i'w gofio;**
**Er rhoi trist farmor trosto,**
**Difarw ei wawd a'i fri o.**

Un o feirdd mwyaf amlwg Glyn Tâf yw Richard Hughes, 'Gwyngyll' (1833 - 1917), brodor o Fôn; ac, yn wir, fe'i claddwyd



Bedd Henry Mills, Tafonwy

yma gydag englyn gan Brynfab ar ei fedd. Mae hwn bellach yn anarllenadwy, ysywaeth; ond dyma gerdd o eiddo Gwyngyll ar fedd Henry Mills, 'Tafonwy', a fu farw ym 1906 yn 69 oed:

**Oeda'r Awen yn ei galar,**
**Goruwch bedd Tafonwy hawddgar;**
**Ef oedd Lenor, a Duwinydd,**
**Cymro pur a gwir Iforydd;**
**Rhoes i'w genedl fyw gerddoriaeth,**
**Ac i Seion fawl wasanaeth;**
**Yna, yn sŵn eu pêr acenion,**
**Aeth i gôr y gwaredigion.**

Yr Iforiaid oedd un arall o'r cymdeithasau a grybwyllwyd uchod.

Ar bwys giatiau'r fynwent, ym mysg colofnau ac eirch gwych, fe welir carreg ddiymhongar teulu John Anwyl, 'Ioan Anwyl' ac Elen, ei wraig, o Fryn Elen, Pontypridd ac arni bedwar cwpled (un yn Lladin), ac englyn gan John Bodfan Anwyl (1875 - 1949), aelod o'r teulu enwog o Gaerwys:

I Edward, eu mab, fu farw 1914 yn 48 mlwydd oed:

**Urddol ŵr a haeddol oedd,**
**Dysgawdwr pob dysg ydoedd.**

**Cambria dilecto plorat caruisse magistro,**
**Nomine oui caro carior ipse fuit. (J.Y.E.)**

Ac i Elen Anwyl uchod, fu farw 1915 yn 80 oed:

**Gem o wraig i'w mawrygu,**
**A mwynaf fam o un fu.**

A John Anwyl uchod, 1921 yn 79 oed:

**Adweinid ef fel dyn da,**
**O gywirdeb a geirda.**

Yn olaf, englyn stoc i Catherine Miriam Jones (nee Anwyl, eu merch), 1871 - 1953; a'i phriod, y Parch Jenkin Jones, 1876 - 1955:

**Wedi bwriad y bore - a'i obaith**
**'R wy'n gwybod o'r gore,**
**Y daw'r alwad o rywle,**
**Gyda'r hwyr, a'm dwg i dre'. (Bodfan.)**

Carreg arall, helaeth ei barddoniaeth saif dros fedd teulu Mary ac Iago Daniels, Brynhyfryd. Bu farw Mary ym 1889 yn 54 oed, ac Iago ym 1925 yn 90 oed. Fe gofir Mary Daniels gydag englyn enwog o law'r Prifardd, Dyfed:

**Mair anwyl am y rhiniau - uchelaf**
**A chwiliodd hyd angau;**
**Mewn bywyd bu'n diwyd hau,**
**Y grawn a dry'n goronau.**

Mynnai marwolaeth cynnar eu mab 30 oed, John Daniels, ym 1879 englyn hir a thoddaid. Oddeutu'r cyfnod hwn y dechreuwn ni weld mesurau amgen fel hyn, law yn llaw â gwellhâd yn safonau'r iaith a'r farddoniaeth:

**Oes Ioan Daniel mewn swyn dywynodd,**
**Heol deg urddas ei wlad a gerddodd;**
**Yn haf ei einioes efe a hunodd,**
**Cysur Brynhyfryd i weryd wyrodd;**
**I gwr y wlad a garodd - mor forau,**
**Draw o dir angau mewn hyder dringodd.**

Buchedd lawn obaith ond byr eto bu i Thomas Griffith Daniels, mab ieuengaf Brynhyfryd; bu farw yntau ym 1891 yn 21 oed:

**Gwir wenith oedd y gronyn - hauodd Tom**
**Yn nydd tirf ei wanwyn;**
**A'i fedi mae ar gau gwyn,**
**Didalar wlad y delyn. (Carnelian.)**

Fe orwedd Carnelian yn y Groeswen yng nghwmni Ieuan Gwynedd a Chaledfryn. Ond mae Glyn Tâf hefyd yn lloches i lwch ambell i'n beirdd. Fe glywsom am Dewi Alaw, Tafonwy a Gwyngyll uchod; ac, o bobtu i lwybr yn arwain i fyny'r allt, yn goruchwylio'r cyfan, mae beddau Ap Myfyr a Dewi Haran.

Ceir hunan-deyrnged ar fedd J. A. Davies, 'Ap Myfyr', fel y canlyn; bu farw Rhagfyr 2, 1886 yn 56 mlwydd oed:

**Y penaf, olaf elyn - yw marw**
**Y tymorol derfyn;**
**Enyd yw i newid dyn,**
**Y byd âd - mae'n bod wed'yn. (Ap Myfyr.)**

Gorwedd David Evans, 'Dewi Haran' gyda'i wraig, Margaret; buodd hi farw 1878 yn 64 oed:

**Heddwch fo i'w llwch sy'n llechu - mewn bedd**
**Myn y byd rydeddu,**
**Ei chofiant, a'i dderchafu,**
**Ar g'oedd gwlad, mewn cariad cu.**

Arwerthydd o Bontypridd oedd Dewi Haran, a fu farw Mehefin 6 1886 yn 72 oed:

**Dewi Haran roddwyd i orwedd;**
**Y mwynaf wron yma'n ei fawredd -**
**Un llon ei odlau fu'n llawn hyawdledd;**
**Barn a rheswm heb wyrni a rhysedd;**
**Ei uchel barch ni chel bedd - etto try**
**Di farw wely i anfarwoledd.**
**(Ap Myfyr.)**

Parhad ar dudalen 9 >

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Cyfnod Ansicr**

I'm cenhedlaeth i o leiaf, yn y cyfnod ansicr hwn yn sgil y llid sydd ar droed yn ein byd, mae'r ymadrodd "*ac ni fu dwthwn fel y dwthwn hwn*" yn go agos at ei le.

Llinell glo soned "Adref" gan R Williams Parry ydi'r dyfyniad – ond gallwn hefyd fod wedi dewis y llinell agoriadol "*Bu amser pan ddewisiais rodio ar led*" i gyfleu'r hyn nad yw'n bosibl oherwydd y caethiwo anorfod sydd arnom. [Fe fyddech, wrth reswm, yn disgwyl i hogyn o Ddyffryn Nantlle yn ogystal arddel gyda balchder y llinell olaf ond un o'r soned "*Digymar yw fy mro trwy'r cread crwn*"!]

Ond nid hefo hogia Dyffryn Nantlle yr ydwi am aros, ond yn hytrach 'rydwi am eich tywys i gyfeiriad y gwleidydd lle trig yr Iddew.

Nid yn llythrennol yn naturiol, oherwydd y gwaharddiadau sy'n eu lle, ond trwy "*gyfrwng y cyfrwng*" fel y byddai Hywel Gwynfryn (dwi'n meddwl) yn ein hatgoffa yn ei sioeau radio.



Côr Bethlehem yn perfformio 'Geiriau Olaf Dewi' ar ddydd Gŵyl Dewi.
Yr unawdydd oedd Thomas Bytheway o Langennech. Arweinwyd gan y cyfansoddwr, Eilir Owen Griffiths gyda Branwen Evans a Peter Wynn Thomas yn cyfeilio.

Mae'r teclyn ffôn yn ein llaw yn ein galluogi i gyfathrebu mewn mwy nag un ffordd a'n gilydd erbyn hyn, ac er nad ydwi'n "Drydarwr" brwd fy hun, mae 'na ddiddordeb gennyf mewn dilyn eraill (unigolion a chyngrheiriau, grwpiau a chymdeithasau) sydd yn brysurach o gryn dipyn yn eu hymwneud a'r cyfrwng.

Un y byddaf yn ei dderbyn yn gyson yw'r ffrwd a ddaw oddiwrth rhywun sydd yn rhannu "Yiddish Proverbs" â mi, a'r awgrym ydi bod y cyswllt yn cyflwyno diarhebion traddodiadol Iddewig, Hebraeg ac Iddew-Almaenig i'm sylw.

Mae'n siwr y byddai'r Athro Peter Wyn Thomas yn gallu fy nghyfeirio at ddiarhebion cyffelyb i'r rhai a ddaw o'r traddodiad yma ym mysg y rhai Cymraeg, ac edrychwn ymlaen at weld ffrwyth ei lafur diweddar yn y maes yma yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

"*Yr hyn na welwch a'ch llygaid, peidiwch a'i greu a'ch tafod*"
"*Pa werth yw'r nodwydd heb lygaid*"
"*Os ydych am fod yn farbwr, cofiwch ymarfer ar farf rhywun arall*"

Ond yn y cyd-destun presennol yr un a ddaliodd fy llygaid a'm gwynt oedd hon: -

*"Oni bai bod 'na olau fyddai 'na ddim cysgod"*

A ninnau wedi gweld ein byd yn gorfod cau o flaen ein llygaid i geisio mynd i'r afael a "*coronafirws*", gan gynnwys ein capeli a'n heglwysi, mae'n siwr gen i bod y ddihareb yna yn mynd i fod o gysur i ni rhywsut neu'i gilydd.

Mae 'na gysgod dros ein byd personol ni ar hyn o bryd, ac mae gweneud yr hyn yr oeddem yn ei gymeryd mor ganiataol wedi ei gwtogi yn sylweddol.

A minnau yn ysgrifennu y llith yma ar Sul y Fam, mae'r cymdeithasu teuluol a fyddai'n gymaint rhan o'n diwrnod wedi ei chwalu, ac mae cyfarch ffrindiau o hirbell yn chwithig ryfeddol i ni.

Mae 'na ymdrechion clodwiw yn cael eu cyflwyno er sicrhau parhad cyswllt cymunedau a'u gilydd, ac fe sefydlodd Bethlehem, fel llawer man arall dwi'n siwr, grwp cyswllt newydd, "Bethlehem Gwaelod y Garth", ar Gweplyfr (Facebook) i geisio llenwi'r bwlch o beidio cwrdd yn rheolaidd yn y capel am y cyfnod amhenodol nesaf yma.

Mae 'na ddeunydd addoli ar gael ar-lein, mae 'na wasanaethau yn cael eu ffrydio ar y cyfryngau cymdeithasol, mae 'na griwiau o gyfeillion ar gael i siarad, i wrando, i fod yn gysur i'r rhai sy'n teimlo unigedd neu mewn argyfwng.

Er bod cysgod yr afiechyd yn lliwio ein byw a'n bod ar hyn o bryd, gall cydnabod bod goleuni yn anhepgor i fodolaeth y cysgod hwnnw roi'r ysbrydoliaeth i ni ail-ystyried rhai agweddau o'n bywydau prysur ni.

Wedi gweld pa mor fregus ydi'n byd a'n betws yn sgil yr haint, gobeithio y byddwn yn gallu gweld gwerth mewn cymuned a chymdeithas, mewn gofal, mewn cwmni, mewn rhannu, a gwerthfawrogi'n siopau lleol a'r sefydliadau a'r busnesau rheini sy'n darparu ar ein cyfer.

Gobeithio'n wir y bydd i haul y gwanwyn a'i lewyrch, wrth sleifio i mewn trwy chwarel y ffestr, gynhesu a diddosi ein haelwydydd a'n heneidiau, gan roi i ni'r cyfle o'r newydd i ystyried ein blaenoriaethau a'n cyfrifoldebau tuag at y blaned, a'i phobl, a fydd, fe wyddom, yn anorfod ar adegau, yn teimlo'r cysgod yn faich arnynt.

ooooOOOOoooo

Cynhelir Ysgol Sul i'r plant pob Sul (heblaw am wyliau Ysgol) am 10:30 a.m.

Gwefan: www.bethlehem.cymru
Trydar (Twitter): @gwebethlehem.
Gweplyfr (Facebook): Bethlehem Gwaelod y Garth.

## Y We yn Gymraeg

https://www.bbc.com/cymru
https://pedwargwynt.cymru/
https://glynadda.wordpress.com/
https://golwg360.cymru/
http://www.gwerddon.cymru/
http://www.casglwr.org/
Http://www.tafelai.com
https://barn.cymru/
https://parallel.cymru/
https://mamcymru.wales/cy/
http://cristnogaeth21.cymru/
http://gwefan.org/
https://seneddymchwil.blog/

## Mynwent Glyntaf

**(Parhad o dudalen 8)**

Canodd Ap Myfyr yr englyn hwn i'w frawd-fardd, Dewi yng nghanol haf 1886, a'i ganlyn i'r gweryd yng ngaeaf yr un flwyddyn; ac mae'n canu o hyd, i'r rhai sy'n fodlon gwrando, i sefyll a dirnad ei gynghanedd. Ond mae'r lleisiau'n tawelu wrth i'r gerrig dirywio neu ddisgyn, ac wrth i'w geiriau bylu. Felly, amcan y grwp Englyn Bedd yw casglu, ffotograffio, rhannu ac - ymhen amser - i greu cronfa-ddata chwiliadwy o'r cyfan er mwyn diogelu'r agwedd bwysig hon o dreftadaeth Cymru i'r dyfodol.

Diolch i Michael Whan am ddod â hanes yr ardal yn fyw drwy'r englynion bedd.
Grŵp Facebook: Englyn Bedd

# tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn 25 Ebrill 2020
Cyhoeddir y rhifyn os daw
digon o ddeunydd i law.

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.com**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk



CYMRAEG

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## Cyngerdd ar y cyd



Nos Sadwrn, 29 Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd corawl yn Eglwys Sant Awstin, Penarth gan Gôr Godre'r Garth a Chôrdydd. Y prif waith oedd Requiem, John Rutter, gyda Ellen Williams yn Unawdydd a Cherddorfa'r British Sinfonietta. Hefyd cafwyd darnau ar wahân gan y ddau gôr a pherfformiad arbennig o Tangnefeddwyr gyda Huw Tregelles Williams yn cyfeilio ar yr organ.

Diolch i'r Arweinyddion, Steffan Huw Watkins a Huw Foulkes a'r cyfeilyddion Branwen Evans a Branwen Gwynn am roi cyfle i ni gymryd rhan mewn noson arbennig.

## Clwb y Dwrlyn yn dathlu 40

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae Clwb y Dwrlyn, Cymdeithas Gymraeg, Pentyrch, Creigiau a Gwaelod y Garth a'r Cylch wedi bod yn dathlu 40 mlynedd ers ei ffurfio yn 1979.

Yng Nghinio Nadolig Clwb y Dwrlyn cyhoedwyd llyfryn yn llawn lluniau o ddigwyddiadau amrywiol y Gymdeithas.

Ymhlith y gweithgareddau di-ri dros y blynyddoedd mae sôn am y cyfarfodydd a'r ciniawa, doniau actio yn Yr Ŵyl Ddrama, Hwyl y Rasus Ceffylau. Atgyfodwyd y Fari Lwyd a'r Plygain. Bu cystadlu brwd Rhwng Gwŷr Pentyrch a'i Gilydd - gemau i'r teulu cyfan, ac yn y Brethyn Cartref a'r Talwrn. Trefnwyd nifer o Deithiau Sgïo a Phenwythnosau Cerdded. Cafwyd adloniant gan sêr y genedl ac roedd Twmpathau yn eu bri ar droad y ganrif. Cyflwynwyd Pantomeim ac yna datblygwyd y Rifiw Blynyddol.

Mae sôn am y cyfan yn y llyfryn ond daeth un llun arall i'r golwg wrth edrych yn ôl rifynnau Tafod Elái. Yn y rhifyn cyntaf, Hydref 1985, mae llun o dîm criced Clwb y Dwrlyn. Tîm sy'n haeddu clod am eu llwyddiant arbennig.

Chwaraewyd pedair gêm yn ystod tymor 1985, ac o ystyried y glaw a gafwyd yr haf honno, fe lwyddwyd i gael nos Iau sych bob tro.




www.tafelai.com/clwb-y-dwrlyn

Yn naturiol ddigon roedd y tîm wedi bod yn ymarfer tu ôl i ddrysau caeëdig ers misoedd a gwobr am yr ymdrech lew oedd ennill pob un o'r gemau, er fod ambell un yn fwy clos nag a ddymunid.

Y gwrthwynebwyr aflwyddiannus oedd Côr Godre'r Garth, Clwb Rygbi Pentyrch, Clwb Ifor Bach a Chlwb Rygbi Cymry Caerdydd.

Er nad yw'r llun yn arbennig o glir gellir adnabod y rhan fwyaf o'r cricedwyr ddaeth a bri i Glwb y Dwrlyn.

Tîm Criced Clwb y Dwrlyn 1985



Cefn: Rhodri Jones, Dilwyn Oehler , ? , Ken Jones, Selwyn Roberts, Brian Davies
Blaen: Wyn Rees, Gavyn Thomas, Don Thomas, Gabe Treharne , Lyn Thomas

# PENTRE'R EGLWYS

*Gohebydd Lleol:*
*Emma Thompson*

**Codi Ysbryd**
Mae plant Pentre'r Eglwys yn trio codi ein calonnau gyda neges o obaith yn y cyfnod yma trwy adael lluniau o enfys yn ei ffenestri tŷ neu mewn sialc ar y pafin. Dyma luniau Ella-Rose a Toby Alford sydd yn mynychu Ysgol Isaf CymdogionGarth Olwg.








**Neges i'r Henoed**
Mae rheolwr Cartref Henoed Garth Olwg ym Mhentre'r Eglwys, Jen Daye wedi gofyn i blant ysgol leol ysgrifennu llythyrau a thynnu lluniau a'i anfon i'r preswylwyr gan fod rhaid iddynt ganslo pob adloniant allanol a gwirfoddolwyr. Dwedodd Ms Daye byddant wrth ei bodd i glywed storiâu'r plant a chlywed sut maent yn llenwi eu diwrnodau tra bant o'r ysgol. Gall y llythyrau a lluniau cael ei anfon i Cartref Henoed, Prif Heol, Pentre'r Eglwys, CF38 1BT neu bostio ym mlwch postio'r cartref.

**Cymdogion**
Mae rhai plant wedi arfer â chymdeithasu gyda'u cymdogion ond mae hwn yn gyfnod o newid trefn. Er bod Osian ac Aneirin wedi ffeindio ffyrdd i gysylltu gyda'u cymdogion a hynny trwy adael neges bositif i'w cymdogion ddarllen yn ystod y cyfnod hunan ynysu. Mae'r neges yn dweud "heddiw rydym yn ddiolchgar am ein cymdogion caredig".



**Shelter Cymru**
Ar hyn o bryd mae Shelter Cymru yn derbyn nifer fawr o alwadau gan bobl sy'n poeni am golli eu swyddi, eu cartrefi, a chadw eu teuluoedd yn ddiogel yn ystod yr achosion Coronafeirws. Mae Shelter Cymru yn gweithio dros Gymru i helpu pobl sy'n cael trafferth gyda thai gwael neu ddigartrefedd. Yn ôl yr elusen un o'r galwadau hynny gan fenyw a oedd newydd golli ei swydd a'i chartref, gan fod y parc gwyliau lle'r oedd hi'n gweithio ac yn byw yn cau oherwydd Coronafeirws. Dyma ond un enghraifft o'r cannoedd o alwadau a gafodd Shelter Cymru'r mis hwn.

Dwedodd gweithiwr achos Shelter Cymru "Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i barhau i ddarparu'r help y bydd ei angen ar bobl yng Nghymru i gadw eu cartrefi, ac rydym yn parhau i ymgyrchu dros newid. Mae angen help arnom i wneud hyn ac os mae unrhyw un eisiau rhoi rhodd fe alle nhw tecstio HOME i 70480 i roi £10 neu alle nhw mynd i ein gwefan".

Y rhif ffôn i gysylltu am gyngor arbenigol ar dai yw 0800495495 ac mae'r rhif ffôn ar gael 9.30yb tan 4yp dydd Llun i ddydd Gwener. Allwch hefyd cael cyngor ar lein ar ei wefan <https://sheltercymru.org.uk/get-advice/coronoavirus> a fydd y wefan yn cael ei diweddaru yn gyson.



Canolfan Galw Shelter

## Cwmni Cyfrifydd Newydd yn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

Ym mis Chwefror ffurfiwyd cwmni cyfrifydd newydd sy'n cynnig gwasanaeth treth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'u harbenigedd ar faterion treth mae Huw Aled Accountants yn falch o allu gwasanaethu pobl Cymraeg ei hiaith a'r di-Gymraeg. Byddant yn gwasanethu cleientiaid ar draws Cymru a thu hwnt.

Gyda dros 30 blynedd o brofiad fel cyfrifydd, mae Huw Roberts yn falch o groesawu Aled Wyn Thomas wrth iddynt ffurfio partneriaeth newydd.

Arbenigedd Huw fel cyfrifydd yw materion treth personol gan gynnwys treth ar eiddo a phrofiant (probate).

Yn dilyn dros chwe mlynedd fel Cyfrifydd Siartredig gyda Pricewaterhouse-Coopers LLP yng Nghaerdydd, mae Aled yn edrych ymlaen at yr her newydd o ddarparu cymorth i bobl hunan-gyflogedig.

Am fwy o fanylion, ewch i huwaledaccountants.com neu ffoniwch 029 2069 4524 neu anfonwch ebost at:
huw@huwaledaccountants.com
aled@huwaledaccountants.com



Huw ac Aled

## Nodyn o Ddiolch

Diolch yn fawr i bawb a fu mor hael yn cyfrannu at Parkinson's UK Cymru a Chanolfan Ganser Felindre er cof am ein chwaer, Siân Cadifor. Bydd y cyfanswm terfynol dros £2,500. Diolch i bawb a gefnogodd ac a gydymdeimlodd â ni, ac os allwn ni helpu mewn unrhyw ffordd dros yr wythnosau nesaf, cofiwch gysylltu - Elin 07754 929910 a Rhun 07976 599607.

# Ysgol Evan James

**Taith i Baris**
Cafwyd 4 diwrnod bythgofiadwy yn Ffrainc pan aeth 23 o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i ddathlu'r Ŵyl Gymreig yn Disney. Wrth gwrs, roedd digon o amser i fynd i gael hwyl yn y ffair, siopa a phrofi bwydydd mewn amrwyiol fwytai. Roedd y plant dipyn yn ddewrach na'r athrawon yn y ffair! Roedd y bws yn orlawn pan ddaethom adref, yn llawn teganau Disney!



Taith i Ŵyl Gymreig Disney

**Seremoni wobrwyo'r Siarter Iaith**
Diolch i aelodau'r Criw Cymreig a aeth i Gaerdydd i dderbyn gwobr arian y Siarter Iaith yng Nghaerdydd. Fe weithioch yn galed iawn i sicrhau y byddai'r wobr arian yn cael ei dyfarnu i'r ysgol. Da iawn wir.



**Bardd Plant Cymru**
Cafodd plant blwyddyn 4 yn nosbarth Ysbaddaden brynhawn i'w gofio pan ddaeth Bardd Plant Cymru, Gruffudd Owen i gynnal gweithdy gyda nhw. Cyfansoddwyd cerddi gwych ac maent wedi eu harddangos yn yr ysgol yn barod. Diolch am ddod i'n gweld.



**Ymweliad Elin Fflur**
Ar Fawrth y 13eg cawsom syrpreis arbennig yn ystod ein gwasanaeth dathlu. Daeth y gantores a'r gyflwynwraig, Elin Fflur i'r ysgol. Roedd wedi clywed bod dosbarth wedi'i enwi ar ei hôl ac felly roedd am ddod i gyfarch disgyblion Dosbarth Elin Fflur. Y noson honno, fe ganodd mewn cyngerdd lleol i godi arian i apêl adfer Clwb y Bont yn dilyn y llifogydd. Cofiwch ddod yn ôl i'n gweld eto pan fyddwch yn y dref.




Dosbarth Elin Fflur

**Codi arian yn dilyn y llifogydd**
Effeithiwyd ar nifer o deuluoedd ein hysgol gan y llifogydd ym Mhontypridd. Penderfynodd Senedd yr ysgol gyda chymorth y Cyngor Eco eu bod yn awyddus i godi arian ac felly cynhaliwyd arwerthiant teisennau yn fuan ar ôl y llifogydd a chodwyd cannoedd tuag at yr achos. Mae'r Senedd yn awyddus i godi mwy o arian gydol y flwyddyn, Pob lwc i chi.

**Cystadlaethau i'n timoedd chwaraeon**
Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi (blwyddyn 5 a 6) am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth ysgolion Pontypridd. Cafodd y plant hwyl yn Heol Sardis ac roedd y cyd-chwarae'n wych.
Mae tîm pêl-droed blynyddoedd 3 a 4 wedi cael cyfleoedd gwych ers iddynt ddechrau chwarae yn nhymor yr hydref. Y mis hwn, aethant i gystadleuaeth pêl-droed tref Pen-y-bont a chawsant ddiwrnod i'r brenin.

**Yr Eisteddfod Gylch**
Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod yn Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci. Perfformiodd pawb yn wych. Llwyddodd y canlynol i ddod i'r brig: Gracie-May – 1af yn Unawd blwyddyn 1 a 2. Gwenno Fortt – 1af yn Unawd blwyddyn 3 a 4. Grŵp Dawnsio Disgo/Hip-hop/Stryd – 1af

**Canu, canu, canu**
Bu côr yr ysgol yn hynod o brysur gyda dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ar ddechrau'r mis. Aethant i gartre'r henoed, Tŷ Gwynno i ddiddanu'r trigolion yno. Roedd y disgyblion wrth eu boddau'n sgwrsio gyda phawb ac roedd y bisgedi a'r diodydd yn hyfryd. Diolch yn fawr i chi am y croeso.
Yn ogystal, aeth rhai o aelodau'r côr o flwyddyn 5 i ganu yng nghôr y clwstwr yn Eglwys Santes Catrin. Roedd hi'n braf cael bod yn rhan o gyngerdd hyfryd.

**Diwrnod y Llyfr**
Un o hoff ddiwrnodau disgyblion yr ysgol yn flynyddol yw Diwrnod y Llyfr. Eleni, gwisgodd pawb fel cymeriad o lyfr ac fe ddaeth blwyddyn 6 i ddarllen straeon i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

# Ysgol Creigiau




Eisteddfod frwdfrydig

**Eisteddfod Ysgol**
Ddydd Gwener, Chwefror 28ain, dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi drwy gynnal ein Heisteddfod Ysgol. Bu'r disgyblion i gyd yn paratoi eitemau amrywiol er mwyn eu perfformio yn ystod y dydd. Cafodd disgyblion o bob dosbarth eu gwobrwyo am ddarnau o waith celf a gwaith llythrennedd. Cawsom ddiwrnod i'r brenin ac ar ôl brwydr galed, Gwrgant oedd yn fuddugol. Diolch i'r disgyblion am eu hagwedd brwdfrydig drwy gydol y dydd ac am ddangos eu cefnogaeth i aelodau o'u llys ac aelodau o'r llysoedd eraill. Gwych iawn yn wir!

**Disgo**
Nos Iau, Chwefror 27ain, trefnodd Cyfeillion yr Ysgol ddisgo Dydd Gŵyl Dewi yn neuadd yr ysgol. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg a Saesneg. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith caled yn trefnu'r disgo.



**Ymweliad â Chanolfan Parc Margam**
Yn ddiweddar aeth Dosbarth 3 a Class 3 ar daith i Ganolfan Parc Margam. Cawsant gyfle i ddysgu am fywydau'r Celtiaid a buon nhw'n cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn yr awyr agored. Cawsant hwyl wrth ddysgu ffeithiau di-ri am y Celtiaid. Diolch o galon i'r rhieni a aeth gyda nhw.

**Diwrnod y Llyfr**
Gwisgodd y disgyblion pob math o wisgoedd ar gyfer Diwrnod y Llyfr. Roedd pawb yn edrych yn fendigedig. Roedd ystod o gymeriadau o Harry Potter i gymeriadau Lego. Da iawn chi!

**Synagog Diwygio Caerdydd**
Aeth disgyblion Blwyddyn 3 i ymweld â Synagog Diwygio Caerdydd i ddysgu mwy am Iddewiaeth. Mwynheuodd pob un yr ymweliad.

**Prynhawn Coffi Masnach Deg**
Trefnodd ein grŵp SNAG Brynhawn Coffi Masnach Deg yn yr ysgol ddydd Mawrth, 3ydd Mawrth. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn gyda nifer o deuluoedd yn galw heibio i brynu'r cardiau cyfarch hardd a wnaed â llaw gan oedolion yn yr Affrig yn ogystal â chynnyrch arall. Codon ni £222.30 i 'Siopa Teg'. Codon ni hefyd ddigon o arian trwy werthu danteithion banana a siocled i brynu dwy gêm i ddisgyblion Blwyddyn 1 i hyrwyddo bwyta'n iach. Diolch i bawb a gefnogodd y fenter a diolch arbennig i Mrs Price a Miss Griffin am drefnu'r digwyddiad.



**Eisteddfod Ddawns yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r sgwad Dawnsio Disgo a gystadlodd yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Neuadd Goffa'r Barri. Roedd safon y dawnsio yn uchel a pherfformiodd y merched yn ardderchog. Daethant yn ail allan o 4 grŵp. Da iawn ferched - gwych! Diolch o galon i Mrs Tewkesbury, Mrs Willis a Miss Phillips am eu hyfforddi.

**Cadwch Gymru'n Daclus**
Yn ddiweddar daeth Catrin Moss, Swyddog Addysg Cadwch Gymru'n Daclus, i asesu gwaith y Pwyllgor Eco. Mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi ein bod wedi llwyddo cadw ein statws Eco-Ysgolion Platinwm am y 4edd flwyddyn! Da iawn aelodau'r Pwyllgor Eco, Mrs Wilkins a Mrs Hurford.

**Seremoni Wobrwyo**
Ddydd Llun, 9fed Mawrth, mynychodd Chloe, Beth, Math a Beca seremoni wobrwyo yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd. Cafodd Chloe a Beth dystysgrif Gwobr Efydd Cymraeg Campus a chafodd Math a Beca dystysgrif Gwobr Arian y Siarter Iaith. Llawer o ddiolch i'r disgyblion, y staff, y rhieni a'r Llywodraethwyr am gefnogi Cymraeg Campus a'r Siarter iaith.



**'Sport Relief' 2020**
Dathlon ni 'Sport Relief' yn yr Ysgol ar yr 16eg o Fawrth. Daeth y disgyblion i'r ysgol yn eu dillad 'Chwaraeon' a chawsom ni lawer o hwyl yn ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon. Cerddodd, sgipiodd, herciodd pob dosbarth filltir neu fwy (o leiaf 14 gwaith o gwmpas yr iard) yn ystod y dydd. Roedd y disgyblion hŷn yn bartneriaid gyda'r disgyblion iau er mwyn eu hannog i gwblhau'r her. Fel ysgol llwyddon ni gwblhau cyfanswm o 430 milltir - anhygoel! Diolch i Mrs Hussey am drefnu'r digwyddiad!





# Ysgol Garth Olwg

Roedd Chwefror yn fis cyffrous dros ben i'r Adran Saesneg!

**Taith y Sgriblwyr**
Yn ddiweddar cafodd rhai disgyblion 7, 8, 9 a 10 gyfle gwych i fynychu sesiynau ysgrifennu creadigol gydag awduron ym Mhrifysgol De Cymru. Esboniodd Patrice Lawrence a Brian Conaghan beth oedd wedi eu hysbrydoli i ddechrau ysgrifennu. Hefyd fe gafodd y disgyblion gyfle i ysgrifennu o dan arweiniad yr awduron a gofyn cwestiynau. Roedd e'n ddiwrnod buddiol iawn.

**Young Writers**
Cyhoeddwyd gwaith dros 80 disgybl o Ysgol Garth Olwg fis diwethaf yn dilyn y gystadleuaeth Young Writers mwyaf diweddar. Llongyfarchiadau mawr i bawb! Dyma lun o griw o fechgyn blwyddyn 10 gyda'u tystysgrifau.



**RSPCA Great Debate**
Aeth grŵp o ddisgyblion blwyddyn 9 i Neuadd y Ddinas, Caerdydd, i gystadlu yn erbyn nifer o ysgolion eraill o Dde Cymru yn y RSPCA Great Debate. Paratôdd y disgyblion yn drwyadl gan ymchwilio i'w thema o flaen llaw ac ysgrifennu cyflwyniad llawn perswâd ac emosiwn. Roedd e'n gyfle arbennig i fireinio eu sgiliau siarad cyhoeddus a byddwn ni'n bendant yn cystadlu'r flwyddyn nesaf eto!



**Dydd Gŵyl Dewi**
Roedd y plant yn edrych yn hyfryd yn eu gwisgoedd Cymreig. Cynhaliwyd gwasanaeth lle adroddodd bob dosbarth ffaith am Dewi, a pherfformiwyd eitemau Eisteddfod yr Urdd.



**Eisteddfod**
Cynhaliwyd yr Eisteddfod gylch yn Nhreorci eleni,
Fe aeth bws llawn o ddisgyblion Garth Olwg gyda'i gilydd er mwyn cystadlu.
Dyma'r canlyniadau:
1af i Mari Roberts ar yr Unawd Blwyddyn 5 a 6 a'r Alaw Werin blynyddoedd 6 ac iau
1af i Begw Williams a Thalia Jones ar y ddeuawd blwyddyn 5 a 6
1af i Zara Harden ar y Llefaru Blwyddyn 5 a 6
1af i'r Parti unsain
1af i'r Parti deusain
1af i Grwp Begw, Mari, Awen ag Elliw ar yr Ymgom Blwyddyn 6 ac iau
1af i Sara Rees Roberts ar yr Unawd Blwyddyn 7-9 a'r Dawnsio Hip Hop neu Stryd 7-9.
1af i Greta Williams ar y Llefaru Unigol 7-9
1af i Ffion Fairclough ar yr Unawd Merched Blynyddoedd 10 a dan 19oed
1af i Grwp Tom, Gethin, Mali a Greta ar yr Ymgom iau 7-9
1af i Beca a Ffion ar yr Ymgom Bl 10-13
1af i Miley a Sara ar y ddeuawd Bl 7-9
2il i Ellie ag Awen ar y ddeuawd blynyddoedd 6 ac iau
2il i Alys Elfyn ar yr Unawd Merched Bl 7-9
2il i'r Grwp Dawnsio Bl 6 ac iau
2il i Mali a Greta ar y ddeuawd Bl 7-9
2il i Begw Williams ar yr Unwad bl 6 ac iau
2il i Awen Rhys ar Unawd Alaw Werin bl 6 ac iau
2il i Twm Pike Llefaru Unigol Bl 7-9
2il i Shauna Langford Hopkins Unawd Merched Blynyddoedd 10 ac o dan 19 oed
2il Côr Blwyddyn 6 ac iau
3ydd Parti Llefaru Bl 6 ac iau
3ydd Catrin Gwen England Unawd Merched Bl 7-9
3ydd i grwp Ava, Seren, Zara a Lyla Ymgom Bl 6 ac iau

**Ysgol Isaf**
Perfformiodd y plant i gyd yn arbennig yn yr Eisteddfod a chafwyd llwyddiant mawr gan yr ysgol.
Dyma lwyddiannau'r Ysgol Isaf:
Unawd bl3 a 4: 2il
Llefaru bl3 a 4: 2il
Côr: 2il

**Canlyniadau Eisteddfod Gylch:**
Unawd bl 4 ac iau - Beca George 2il
Llefaru bl 4 ac iau - Llew Harries 2il
Unawd bl 6 ac iau - Mari Roberts 1af, Begw Williams 2il
Côr - 2il
Llefaru bl 6 ac iau - Zara Harden 1af
Parti unsain - 1af
Alaw werin - Mari Roberts 1af, Awen Rhys 2il
Parti deulais - 1af
Parti llefaru - 3ydd
Ymgom - 1af a 3ydd
Deuawd - Begw Williams a Thalia Jones 1af, Ellie Pike ac Awen Rhys 2il

**The Really Wild Show**
Daeth "The Really Wild Show" i ddysgu disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn am anifeiliaid gwahanol.



**Jack Karadogan**
Llongyfarchiadau mawr i Jack Karadogan a gafodd ei enwi yn gapten tim dan 16 yn Nhwrnament UEFA mis Chwefror. Da iawn Jack!



# Ysgol Garth Olwg

**Taith yr Adran Gelf i Barcelona gan Georgia Maisie**



Cawsom ni, ddisgyblion Celf a Ffotograffiaeth blynyddoedd 11, 12 a 13 y cyfle i fynd ar daith i Barcelona i ymweld â'r ddinas. Bwriad ein taith oedd casglu tystiolaeth gynradd ar gyfer ein gwaith cwrs. Ar ein diwrnod cyntaf teithion ni i Barcelona ar awyren gan hedfan o Gaerdydd. Pan gyrhaeddom ni aethom am dro o gwmpas rhan hynaf y ddinas sef y 'Gothic Quarter'. Wrth gerdded o gwmpas y 'Gothic Quarter' ymwelom ni ag El Pont del Bisbe. Pont sy'n mynd o un adeilad i'r llall, mi oedd yn grand iawn. Ar ein noson gyntaf bwyton ni ym mwyty La Fonda, lle blasom ni paealla traddodiadol am y tro cyntaf!



Ar ein hail ddiwrnod aethom ni i Barc Guëll, sy'n enwog iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r parc wedi'i greu allan o fosaig, gan y pensaer ac artist Anthonio Gaudi. Mi oedd y tywydd yn hollol braf, rhyfedd iawn oedd gwisgo sbectol haul ym mis Chwefror! Roedd Mrs Jones a Mrs Leonard wedi gorfod prynu pâr gan fod yr haul mor gryf! Wedyn aethom ni i'r Sagrada Família, sef yr Eglwys Gadeiriol, sy'n enwog iawn am fod mor brydferth ac eto darn arall anhygoel gan Antonio Gaudi. Mae'r eglwys yn dal i gael ei hadeiladu, gan fod cynlluniau Antonio Gaudi mor uchelgeisiol er bod y gwaith wedi cychwyn nôl yn 1882. Ond yn sicr mi oedd hwn werth ei weld! Ar ôl ymweld â'r Sagrada Família aethom ni i gael bwyd yn yr Hard Rock Café. Roedden ni'n lwcus iawn gyda'r bwyd, digon o fwyd blasus i bawb! Cawsom ni'r cyfle i fynd i fowlio 10! Cawsom ni hwyl yn chwarae bowlio! Roedd Mrs Leonard a Tyler Morgan-Thomas wedi ennill! Roedd adeilad y bowlio ar bwys stadiwm Camp Nou, roedd Barcelona yn chwarae yn y stadiwm y noson hynny, roedd yr awyrgylch o'r tu allan yn anhygoel!

Drannoeth teithiom ni i Poble Espanyol gan ddefnyddio'r Metro. Mae'r amgueddfa yma yn gyfuniad o dai a phentrefi sy'n nodweddiadol o Sbaen, yn debyg iawn i ein Hamgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Gan fod yr olygfa mor hyfryd penderfynom ni i aros am ginio, felly Tapas amdani! Yn y nos aethon ni i'r Palacio del Flamenco, lle cafwyd pryd o fwyd traddodiadol wrth wylio sioe Flamenco. Mi oedd y dawnsio'n wych! Cafwyd hefyd y cyfle i ddysgu rhai o'r symudiadau! Ac i orffen ein taith cyn mynd adre cawsom ni'r cyfle i ymweld â Boqueria sef y farchnad enwog ar Las Ramblas gan orffen trwy ymweld â'r Port Vell wrth ymyl y môr.

Diolch yn fawr iawn i'r Adran Gelf am daith mor anhygoel, mi fyddaf yn cofio ein hamser braf am byth!





**Grwp Dawns blwyddyn 7**



Perfformiodd rhai disgyblon o flwyddyn 7 yn Neuadd Dewi Sant fis Chwefror. Roedd hwn yn brofiad anhygoel iddyn nhw gan fod rhai ddim ond wedi dechrau dawnsio ym mis Medi! Roedd y merched wedi perfformio'n wych ac roedd Miss Jones yn falch iawn ohonyn nhw.



**Adran Addysg Gorfforol**

Mae'r adran Addysg Gorfforol am ddathlu llwyddiant tîmoedd 7 bob ochr bl 8 & 10. Buddugoliaeth i dîm bl 10 yn erbyn Ysgol Bryncelynnog a chollodd bl 8 yn y ffeinal yn erbyn Y Pant.



Da iawn i'r bechgyn a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth plât *USW sport* rygbi 7 bob ochr.

**Ben Burnell**

Llongyfarchiadau mawr i Ben Burnell a oedd yn rhan o garfan y Gleision dan 18 a enillodd bencampwriaeth ranbarthol. Da iawn Ben, dyfodol disglair iawn i ti.



## Ysgol Garth Olwg (Parhad)

**Hanes y Ddadl Fawr**
Bu cyfnod cyffrous i rai aelodau o'r Ysgol Hŷn yn ddiweddar.
Cafodd y tîm Siarad Cyhoeddus ei ddewis i gystadlu yn rownd yr 8 olaf yng nghystadleuaeth Y Ddadl Fawr Radio Cymru.
Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Theatr y Soar yng Nghaernarfon! Teithiodd Huw, Anwen a Gruff o flwyddyn 12 ar y daith 4 awr er mwyn cystadlu. Roedd yr ornest yn erbyn Aelwyd yr Ynys.



Bu cryn ganmol i'r tîm ifanc ar eu haeddfedrwydd a sgiliau siarad cyhoeddus. Dim lwc y tro yma ond profiad bythgofiadwy i'r tri. Diolch iddynt am fod yn llysgenhadon da i'r ysgol.

**Dydd Miwsig Cymru**
I ddathlu Dydd Miwsig Cymru eleni, cafodd Blwyddyn 7 gyfle i fynychu gig yng Nghanolfan Garth Olwg. Gracie Richards oedd y cyntaf i berfformio ei chaneuon hyfryd gyda'i gitâr. Yna, roedd hi'n amser dawnsio i ganeuon Y Dail, band Ysgol Garth Olwg. Mwynhaodd bawb mas draw! Diolch yn fawr i Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf am drefnu, ac i'r artistiaid am roi perfformiadau gwefreiddiol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at Ddydd Miwsig Cymru 2021 yn barod!

**Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi clwstwr Garth Olwg:**
Cawsom noson hyfryd yn Eglwys y Santes Catrin i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni. Dechreuodd y noson gydag eitemau hyfryd gan delynorion Ysgol Garth Olwg. Yna, cafodd y gynulleidfa ei swyno gan gôr y clwstwr, oedd yn cynnwys disgyblion o ysgolion Garth Olwg, Evan James, Pont Sion Norton, Castellau a Heol y Celyn. Band ysgol Garth Olwg, Y Dail, oedd y nesaf i ddiddanu'r gynulleidfa. Cyn i'r côr gamu i'r llwyfan eto, cafwyd perfformiad gwych gan Mei Gwynedd o'i ganeuon mwyaf poblogaidd. Roedd y plant wrth eu boddau pan ymunodd Mei Gwynedd â nhw i ganu Sosban Fach! Roedd y pice ar y maen o farchnad Pontypridd hefyd yn boblogaidd iawn. Diolch yn fawr i'r gynulleidfa am gefnogi'r noson; roedd yn fraint gallu cefnogi apêl y llifogydd gyda'r cyfraniadau hael.





## Cofeb i Awdur Ein Hanthem yng Nghaerffili

Gosodwyd cofeb hardd ym mhen uchaf maes parcio'r Twyn yng Nghaerffili ym mis Mawrth. Cofeb yw hi i un o feibion enwocaf y sir, Evan James. Ie, yng Nghaerffili ganed awdur ein Hanthem Genedlaethol yn 1809. Gwelodd olau dydd am y tro cyntaf mewn bwthyn sydd bellach wedi'i ddymchwel ond a safai mewn rhes yng nghysgod deheuol Neuadd y Gweithwyr yn Stryd y Castell. Gosodwyd plac glas ar dalcen y neuadd i nodi pwysigrwydd y safle. Symudodd y teulu o'r ardal pan oedd Evan ond pedair blwydd oed i'r Ancient Druid yn Argoed. Ganed James, y mab, yno yn 1832 yn un o saith o blant. Symudodd y teulu i Bontypridd yn 1847 i redeg ffatri wlân ar lannau'r afon Rhondda, yn agos i le mae Ysgol Gymraeg Evan James erbyn hyn. Bu Evan yno tan ei farwolaeth yn 1878. Gadawodd James Bontypridd am Aberpennar ac yna i Aberdâr yn 1893 lle bu farw yn 1902.

Cyfansoddwyd ein Hanthem Genedlaethol ym mis Ionawr 1856, fel y gwelir ar y copi cynharaf sydd mewn bodolaeth, dogfen sydd nawr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Does dim sicrwydd, fodd bynnag, ai'r dôn neu'r geiriau a ddaeth yn gyntaf, ond mae'n gwbl hysbys, mai Evan (Ieuan ap Iago) y tad ysgrifennodd y geiriau a'i fab, James y telynor, yr alaw. Ystyrir yr anthem ymhlith y mwyaf angerddol yn y byd.

Gwnaeth gwŷr Pontypridd lawer o'u cysylltiad â'r bardd a'i fab am iddynt ysgrifennu "Hen Wlad fy Nhadau", gan sefydlu cofeb hardd ym Mharc Ynysangharad y dref yn ystod yr 1930au. Digon teg, gan mai yn y dref honno y cyfansoddwyd ein hanthem. Ond, cofiwn hefyd i deulu'r Jamesiaid fyw yn Ffos yr Hebog ar Gomin Gelligaer ac yn nhafarn yr Hen Felin sydd bellach yn adfail dan gysgod traphont Bargoed ar lannau'r Rhymni. Bu grwpiau lleol yn dathlu 200 mlwyddiant geni Evan James yn ystod 2009. Cynhaliwyd cyflwyniadau yn y Clwb Rygbi gerllaw ei fan geni ac wedyn yn yr amgueddfa wrth bont enwog Pontypridd.

Gosodwyd cofeb ym Mharc Dafydd Williams yn 2009, ond gan mai ar



weddillion sycamorwydden oedd hi, dirywiodd a bu'n rhaid ei dymchwel yn 2017. Gadawodd hyn y dref yn amddifad o goffadwriaeth i'n mab disgleiriaf. Dyna pryd camodd aelodau Cyngor Tref Caerffili i mewn a phenderfynu ei bod yn hen bryd i Evan James gael cofeb deilwng. Os ydym i gofio Tommy Cooper a Malcolm Uphill mae siŵr o fod yn bwysicach cofio Evan James. Y Cynghorwyr James Fussell, Huw Jackson a Colin Elsbury oedd ar flaen y gad ynghyd â'u cyd-gynghorwyr. Cawsant gefnogaeth Phil Davey, Clerc y Cyngor a Ryland Llewelyn a Steve Wilcox o'r Cyngor Bwrdeistref.

Wedi sicrhau caniatâd cynllunio i osod y cerflun yn y man mwyaf addas, aethpwyd ati i fynd ar ofyn nifer o gerflunwyr Cymreig. Cafwyd ymateb gan bedwar ac, yn y diwedd, Rubin Eynon gafodd y fraint o gyflawni'r dasg o lunio'r cerflun. Bwriadwyd cynnal seremoni ddadorchuddio'r gofeb ddiwedd mis Mawrth, yng nghwmni côr meibion ond, wrth gwrs, bu'n rhaid gohirio. Edrychwn ymlaen at y seremoni pan ddaw'r argyfwng hwn i ben.

Erthygl o CwmNi,
Papur Bro ardal Caerffili




Geiriau'r anthem wedi'u cerfio